



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Y GALLU I GREU

Taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel
fyd-eang



"Cyn i chi orffen bwyta'ch brecwast yn y bore, rydych chi wedi
dibynnu ar hanner y byd." Martin Luther King

WWW.FUTUREGENERATIONS.WALES

[@FUTUREGENCYMRU](https://twitter.com/FUTUREGENCYMRU)

CYSYLLTIADAU



SWYDDOG CYFATHREBU

Julie Richards
07904 866 458
julie.richards@cenedlaethaurdyfodol.cymru
@sapphofem



ARWEINYDD CYFATHREBU A MATERION CYHOEDDUS

Jacob Ellis
07908 067 437
jacob.ellis@cenedlaethaurdyfodol.cymru
@jacobdellis



@futuregencymru



/futuregencymru

gellir cael mwy o wybodaeth am ein gwaith ar y
wefan:
WWW.CENEDLAETHAURDYFODOL.CYMRU




DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Pwrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn peri i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, chwilio am ffyrdd o atal problemau a chymryd agwedd fwy cysylltiedig. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru y bydd pawb ohonom eisiau byw ynddi, heddiw ac yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau ein bod ni oll yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn gosod saith amcan llesiant yn eu lle. Mae datblygu cynaliadwy'n ymwneud â gwella'r ffordd y gallwn ni gyflawni ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar yr adnoddau isod

Y Ddeddfwriaeth

Yr Hanfodion



Y 7 NOD LLESIANT

Public bodies must work to achieve the ambition of all of the seven well-being goals:

Cymru Lewyrchus



Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Cymru Gydnerth



Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Cymru â Diwylliant
Bywiog lle mae'r
Gymraeg yn Ffynnu



Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth bethfo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Cymru Iachach



Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Cymru sy'n fwy
cyfartal



Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Cymru o Gymunedau
Cydlynus



Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

Cymru sy'n Gyfrifol ar
lefel fyd-eang



Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiantbyd-eang.

Y 5 DULL O WEITHIO

Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus i gyfrannu at y saith nod llesiant, gosodwyd pum dull o weithio sy'n darparu



Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.



Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.



Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.



Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.



Ymgyfrannu

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

RHAGLEN Y GALLU I GREU

'Y Gallu i Greu' yw un o brif raglenni gwaith y Comisiynydd. Mae'n ddull partneriaeth o oleuo gwaith rhagorol syn gwella llesiant mewn cymunedau ledled Cymru. Bydd yn amlinellu gweledigaeth gadarnhaol o'r sut y gallai Cymru 'bosib' edrych pe bai cyrff cyhoeddus yn ymateb i'r cyfleoedd y mae'r ddeddfwriaeth yn ei darparu i wneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



DIOGELWYR TAITH

Mae pob diogelwr taith yn cynnwys nifer o bynciau sy'n berthnasol i'r nod hwnnw, llawer ohonynt hefyd yn cysylltu â nodau eraill. O dan bob pwnc amlinellir 'camau' tuag at newid: gweithrediadau yw'r rhain y dylai cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill eu cyflawni ar eu taith i wireddu'r nodau llesiant.

PRIF NEGESEUON

- Mae'r taith tuag at Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang yn egluro pa gamau sy'n bosibl i sefydliadau eu cyflawni ar eu taith er mwyn cyfrannu at y saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae'r pwrs cyhoeddus o £6 biliwn yng Nghymru yn offeryn pwerus i ddarparu cynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd. Wrth wraidd popeth yr ydym yn ei brynu mae person, ac wrth dalu pris teg i'r person hwnnw/honno am nwyddau, gallwn eu cynorthwyo i anfon eu plant i'r ysgol, rhoi bwyd ar y bwrdd a chynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Deallwtwriaeth a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd gweithredu ar lefel fyd-eang sydd ddim yn cael ei ystyried fel rhywbeth syml, braf i'w wneud a gwaith ychwanegol i busnes-fel-arfer.
- Un o brif nodweddion Deddf Llesiant Cymru ydy sut gall cenhedloedd cyfrannu fwy fwy at gweithredu ar lefel fyd-eang

TESTUNAU

Mae enghreifftiau i ddangos y testunau i'w gweld yn y diogelwyr taith

Testun 1: Defnydd a chaffael moesegol – sicrhau fod ein cadwyni cyflenwi'n deg, yn foesegol a chynaliadwy



Testun 2: Dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth fyd-eang – cynorthwyo ymddygiad cynaliadwy a gwneud y cysylltiadau



Testun 3: Cydsefyll a Heddwch - chwarae ein rhan i sicrhau fod Cymru'n groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb



Testun 4: Ein Rhan Deg o Adnoddau Naturiol - sicrhau ein bod yn deal pwysigrwydd defnyddio adnoddau'r ddaear yn effeithlon a chyfrannu at lesiant byd-eang



Testun 5: Buddsoddi a Gwaredu Teg a Moesegol - gwneud y penderfyniadau cywir yn awr, i alluogi cenedlaethau'r dyfodol i ffynnu



Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol a Hashnodau

Trydar

Cofiwch gynnwys y dolenni Trydar canlynol wrth drydaru:

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
@futuregencymru

Cymru Masnach Deg
@FairTradeWales

Hub Cymru Africa
@HubCymruAfrica

Instagram

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
@futuregencymru

LinkedIn

@Office of the Future Generations Commissioner for Wales
@sophiehowe

Hashnodau

#DLICD

#5DW

#7NLI

#CymruGyfrifolarLefelFydEang

ADNODDAU I'W LAWRLWYTHO

Cysylltwch â Julie os oes gennych unrhyw geisiadau ychwanegol

